# LC1236

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn ailddeddfu gyda newidiadau Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005"). Mae'r newidiadau yn estyn y diffiniad o'r ymadrodd "Rheoliadau'r Gymuned" fel y'i hamlinellwyd yn Rheoliadau 2005 a chan hynny yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi deddfwriaeth benodol y Gymuned sy'n gymwys ers 11 Ionawr 2006. Diwygir y trefniadau gorfodi cyfredol hefyd. Gwnaed y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol ar 10 Ionawr 2006 a daethant i rym ar 11 Ionawr 2006.

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae'r pwyntiau isod wedi'u nodi i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae Rheoliad 5(1)(b) yn y testun Saesneg yn darparu i'r awdurdod bwyd orfodi'r Rheoliadau Hylendid (fel y'i diffinnir yn rheoliad 2(1)) i'r graddau nad ydynt yn cael eu gorfodi gan "the Agency or the food authority as provided for in sub-paragraph (a)". Mae'r testun Cymraeg yn darparu i'r awdurdod bwyd orfodi'r Rheoliadau Hylendid i'r graddau nad ydynt yn cael eu gorfodi gan "yr Asiantaeth yn unol ag is-baragraff (a)". [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mae Rheoliad 13(9) yn y testun Saesneg yn darparu, at ddibenion y rheoliad hwnnw, y dylid dehongli'r

ymadrodd "the public analyst" ("y dadansoddydd cyhoeddus") mewn unrhyw ardal lle y caiff dau neu ragor o ddadansoddwyr cyhoeddus eu penodi fel pe bai'n cyfeirio at y naill neu'r llall o'r dadansoddwyr hynny neu at unrhyw un ohonynt. Mae'r testun Cymraeg yn darparu ar gyfer dehongli’r ymadrodd yn y modd hwnnw at ddibenion "y Rheoliadau". [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Byddai'r pwyntiau uchod wedi bod yn addas i'w cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau. Fodd bynnag, gan fod y Rheoliadau wedi'u gwneud o dan y Weithdrefn Weithredol, nid yw hynny'n bosib a bydd angen deddfwriaeth ddiwygio i gywiro'r anghysondebau. Gan fod y pwyntiau a nodwyd yn ymwneud â gorfodi'r Rheoliadau, tybir y dylid gwneud deddfwriaeth ddiwygio cyn gynted ag y bo modd.

## Sylwadau

Dim.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 14 Mawrth 2006